Ministry of Justice

# Cynyddu’r defnydd o gyfryngu yn y system cyfiawnder sifil

Mae’r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 26 Gorffennaf 2022

Daw’r ymgynghoriad i ben ar 4 Hydref 2022

# Cynyddu'r defnydd o gyfryngu yn y system cyfiawnder sifil

**Ymgynghoriad wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at ddefnyddwyr y llys, y cyfryngu proffesiwn, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y cyngor sector, a phawb sydd â diddordeb mewn datrys anghydfodau sifil yng Nghymru a Lloegr. |
| **Hyd:** | O 26/07/2022 tan 04/10/2022 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:** | Dispute Resolution Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 04/10/2022 at:<br><br>Dispute Resolution Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk |
| **Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:** | Mae cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod ar gyfer “Ymholiadau”. |
| **Papur ymateb:** | Bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi. |

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **3**

**Crynodeb gweithredol** **5**

**Cefndir** **8**

**Y cynigion** **13**

(1) Cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain 13

(2) Cryfhau'r sector cyfryngu sifil 20

**Asesiad Cydraddoldeb** **23**

**Holiadur** **25**

**Gwybodaeth amdanoch chi** **27**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **29**

Cwynion neu sylwadau 29

Copïau ychwanegol 29

Cyhoeddi ymateb 29

Grwpiau cynrychiadol 29

Cyfrinachedd 29

**Egwyddorion ymgynghori** **31**

# Rhagair

Wrth i ni barhau i ailgodi system gyfiawnder well a chryfach, mae'n bryd iddi addasu i anghenion a blaenoriaethau'r oes fodern. Mae hyn yn golygu hwyluso mynediad cyflym, ar-lein i'r llysoedd, yn ogystal ag annog a rhoi'r cyfle i bobl ddatrys eu hanghydfodau drwy gonsensws lle bynnag y bo modd. Pan fydd y system cyfiawnder sifil yn gallu helpu pobl i wneud hyn, gan eu helpu i arbed amser, cost a straen brwydr wrthwynebol yn y llys, credaf fod dyletswydd arni i wneud hynny.

Yn unol â'r weledigaeth hon, y llynedd, roedd Cais y Weinyddiaeth Gyfiawnder am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr wedi nodi ein huchelgais, gyda chefnogaeth y farnwriaeth, i integreiddio prosesau datrys anghydfodau, fel cyfryngu, o fewn taith y defnyddwyr drwy'r system gyfiawnder. Roedd yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwnnw'n cadarnhau'r ystod o fanteision i unigolion sy'n deillio o ddatrys eu hachos drwy gonsensws. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at y ffaith mai prin iawn oedd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r manteision hyn a bod angen gwneud mwy i helpu pobl i gael mynediad at brosesau datrys anghydfodau ac i ymgysylltu â'r prosesau hyn.

Fel cam cyntaf i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y system cyfiawnder sifil, rwyf yn cynnig sicrhau bod pawb sy'n rhan o anghydfod hawliadau bychain a amddiffynnir yn cael eu cyfeirio'n awtomatig am apwyntiad cyfryngu am ddim dros y ffôn gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) yn gynnar yn eu hachos. Er y bydd y llysoedd yn parhau i fod yn agored i bawb, bydd ein polisi'n golygu bod miloedd o bobl na fyddent wedi ceisio defnyddio gwasanaeth cyfryngu o'r blaen i ddatrys eu hanghydfod, yn cael eu cefnogi i wneud hynny. Pan fydd yr ymgais hon yn arwain at setliad, mae hefyd yn golygu bod adnoddau barnwrol yn cael eu rhyddhau ar gyfer achosion mwy cymhleth lle mae gwir angen amdanynt, gan helpu achosion o'r fath i symud ymlaen yn gynt i wrandawiad llys.

Rwyf hefyd yn dymuno dechrau gosod y sylfeini ar gyfer gwneud cyfryngu yn rhan annatod o'r broses llys yn ehangach ar draws y system cyfiawnder sifil. Er mwyn galluogi hyn, mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu fforddiadwy, atebol ac o safon uchel ar gael y tu allan i'r gwasanaeth llys, a dyna pam fy mod yn gofyn am farn ynghylch sut gallai'r Llywodraeth weithio gyda'r sector cyfryngu i gefnogi hyn.

Ledled y byd, mae gwerth prosesau datrys anghydfodau – cyflafareddu, cyfryngu, cymodi, datrys anghydfodau ar-lein – o ran galluogi partïon i sicrhau atebion effeithiol drwy gonsensws i'w anghydfodau yn cael ei gydnabod fwyfwy. Mae'r DU wedi bod yn arwain y ffordd ers tro byd o ran hyrwyddo'r agwedd hon a rhaid i ni barhau i lunio'r ffordd ymlaen drwy gryfhau cyfryngu fel rhan hanfodol o'r system gyfiawnder fodern.

Yr Arglwydd Bellamy CF

# Crynodeb gweithredol

Mae’r ddogfen hon yn datgan cynnig y Llywodraeth i gyflwyno gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu ar gyfer pob achos a ddyrennir i drac hawliadau bychain y Llys Sirol. Dyma’r broses rheoli achosion sy’n berthnasol i’r rhan fwyaf o hawliadau sy’n werth llai na £10,000, er bod y lefel yn is ar gyfer hawliadau am anafiadau personol a diffyg atgyweirio cyflwr tai.

O dan gynnig y Llywodraeth, oni roddir eithriad gan y llys, bydd yn ofynnol i bob parti mewn hawliad bach a amddiffynnir (mae’r ymadrodd ‘partïon’ yn cynnwys yr ‘hawlydd’ a’r ‘diffynnydd’ mewn achos) fynychu apwyntiad cyfryngu am ddim gyda GLITEM cyn y gall ei achos symud ymlaen i wrandawiad.

Disgwylir i’r cynnig helpu 272,000 o bartïon ychwanegol bob blwyddyn i fanteisio ar y cyfle i ddatrys eu hanghydfod drwy gonsensws drwy gyfryngu, gan arbed amser a chost ymgyfreitha. Disgwylir hefyd y bydd yn dargyfeirio hyd at 20,000 o achosion bob blwyddyn o’r system llysoedd, gan ryddhau adnoddau barnwrol i’w defnyddio ar gyfer achosion cymhleth.

Mae’r Llywodraeth hefyd yn ystyried a ddylid ehangu gofyniad i gyfryngu y tu hwnt i hawliadau bychain. I gyflawni hyn, byddai angen i ni gyfeirio partïon at gyfryngwyr allanol y tu allan i’r gwasanaeth llys. O’r herwydd, rydym yn ceisio barn rhanddeiliaid ar y dull cywir o gryfhau’r broses o oruchwylio cyfryngwyr allanol a sicrhau bod y farchnad yn darparu gwasanaethau cyfryngu atebol o safon uchel y tu allan i’r system llysoedd.

Mae’r naill gynllun a’r llall yn rhan o ymdrechion ac uchelgais ehangach y Llywodraeth i helpu partïon i wireddu manteision prosesau datrys anghydfod drwy gonsensws, fel cyfryngu, a gwneud y prosesau hyn yn gam allweddol yn y system gyfiawnder.

Mae’r Llywodraeth yn croesawu barn defnyddwyr y llysoedd, y proffesiwn cyfryngu, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cynghori, a phawb sydd â diddordeb mewn datrys anghydfodau sifil.

# Rhagarweiniad

Mae'r papur hwn ynglŷn ag ymgynghoriad ar gyfer cynnig y Llywodraeth i gyflwyno atgyfeiriad awtomatig i gyfryngu ar gyfer achosion hawliadau bychain yn y Llys Sirol. Mae hefyd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar sut i gryfhau'r sector cyfryngu sifil allanol.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at ddefnyddwyr llys, y proffesiwn cyfryngu, y proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth, y sector cyngor, a phawb sydd â diddordeb mewn datrys anghydfodau sifil yng Nghymru a Lloegr.

Mae papur ymgynghori Cymraeg ar gael yn [insert link – gweler y canllawiau Cymraeg yn https://intranet.justice.gov.uk/guidance/communications/welsh-language-scheme/]

Mae Asesiad o Effaith yn dangos bod y cynigion yn debygol o arwain at rai costau ychwanegol ac arbedion sylweddol i fusnesau. Mae copi o’r Asesiad o Effaith ynghlwm. Croesawir sylwadau ar yr Asesiad o Effaith hefyd.

Anfonir copïau o’r papur ymgynghori at:

Association of British Insurers (ABI)

Association of Consumer Support Organisations (ACSO)

Bar Council

Centre for Effective Dispute Resolution (CEDR)

Chartered Institute of Arbitration (CIArb)

Chartered Institute of Legal Executives (CILEX)

Citizens Advice

Civil Court Users Association (CCUA)

Civil Mediation Council (CMC)

HMCTS Equality and Inclusion Engagement Group

Federation of Small Businesses (FSB)

JUSTICE

Law Centres Network

Law Council of Wales

Law Society

Legal Education Foundation

HMCTS Litigants in Person Engagement Group

Which?

Fodd bynnag, nid yw’r rhestr hwn i fod yn gyflawn nac yn allgynhwysol a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn.

# Cefndir

### *Cyfryngu yn y system gyfiawnder sifil yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd*

Mae’r system cyfiawnder sifil yn delio â materion cyfraith nad ydynt yn droseddol nad ydynt yn anghydfodau teuluol nac yn faterion y mae’r tribiwnlysoedd yn ymdrin â hwy. Yn wahanol i achosion troseddol – lle mae’r wladwriaeth yn erlyn unigolyn – mae achosion llys sifil yn codi pan fydd unigolyn neu fusnes yn credu bod ei hawliau wedi’u torri. Mae mathau o achosion sifil yn cynnwys: busnesau sy’n ceisio adennill arian sy’n ddyledus iddynt; unigolion sy’n ceisio iawndal am anafiadau; neu unigolion neu fusnesau sy’n hawlio am nwyddau neu wasanaethau sy’n cael eu darparu’n wael. Cynhelir y mwyafrif helaeth o achosion sifil yn y Llysoedd Sirol, lle mae dyfarniadau fel arfer yn galw am dalu neu ddychwelyd arian neu eiddo.

Cyn y gall unigolyn (neu ‘barti’) gyflwyno hawliad yn y llysoedd sifil, rhaid iddo ddilyn y canllawiau yn y Cyfarwyddyd Ymarfer ar Ymddygiad a Phrotocolau Cyn-achos.[1] Mae’r canllawiau hyn yn pwysleisio y dylid ystyried ymgyfreitha fel dewis olaf ac mae’n mynnu bod partïon yn ystyried a allai dull o ddatrys anghydfod eu galluogi i setlo’r mater heb orfod cychwyn achos llys.

Mae amrywiaeth o brosesau datrys anghydfodau ar gael; fodd bynnag, un o’r prosesau a ddefnyddir amlaf mewn achosion sifil yw cyfryngu. Mae hon yn broses hyblyg a chyfrinachol sy’n cynnwys penodi cyfryngwr, sy’n drydydd person annibynnol a diduedd, i helpu’r partïon i drafod y materion, negodi a datrys yr anghydfod mewn ffordd sy’n dderbyniol i’r ddwy ochr.

Mae’r canllawiau cyn-achos yn nodi y gall y llys ofyn i bartïon ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ystyried defnyddio proses datrys anghydfodau. Ar gyfer anghydfodau sydd ynghlwm â defnyddwyr, gall hyn gynnwys defnyddio cynllun Dulliau Amgen i Ddatrys Anghydfodau (ADR). Lle canfyddir bod parti wedi gwrthod gwneud hynny’n afresymol, mae gan y llys y pŵer i roi sancsiynau, gan gynnwys oedi (neu ‘atal’) yr achos hyd nes y cymerir y camau gofynnol, neu orchymyn y parti sydd ar fai i dalu costau niweidiol ar ddiwedd y broses (yn ei gwneud yn ofynnol i barti dalu holl gostau cyfreithiol y parti arall neu ran ohonynt).

Ar ôl cychwyn achos, mae’r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn nodi sut rheolir achosion drwy’r system llysoedd. Eu nod yw sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn deg; eu bod yn bwrw ymlaen yn gyflym ac yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol bosibl; a bod y defnyddwyr yn gallu deall y system yn hawdd.

---

[1] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules/pd_pre-action_conduct

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, yn yr un modd â'r canllawiau cyn-achos, mae'r rheolau'n nodi y dylai partïon a'u cyfreithwyr ystyried defnyddio cyfryngu i weld a allant ddatrys eu hachos cyn iddo gyrraedd gwrandawiad. Unwaith eto, mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil yn galluogi'r llysoedd i hwyluso defnyddio cyfryngu drwy orchymyn atal er mwyn i hyn ddigwydd a gall y llysoedd wneud gorchymyn costau niweidiol os ydynt yn penderfynu nad yw parti wedi gwneud ymdrech i geisio setlo ei achos.[2] Mewn rhai mathau o achosion, mae'r llys hefyd yn darparu gwasanaethau datrys anghydfodau, fel Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain GLITEM, sy'n cynnig apwyntiad cyfryngu am ddim i bartïon sy'n ymwneud â hawliadau gwerth is.

Ac eto, er gwaethaf y gofynion, y pwerau a'r cymhellion hyn, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y nifer sy'n manteisio ar gyfryngu wedi parhau i fod yn weddol isel, yn enwedig ar gyfer hawliadau bychain (y rheini sy'n werth llai na £10,000 fel arfer), sy'n ffurfio 61% o hawliadau yn y Llys Sirol. Er enghraifft, dim ond mewn 21% o hawliadau bychain mae'r ddau barti'n cytuno i fynychu sesiwn gyfryngu gyda'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain.[3]

Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif helaeth o bartïon mewn anghydfodau hawliadau bychain yn methu â chael budd o wasanaeth rhad ac am ddim a allai eu helpu i ddatrys eu hachos mewn ffordd sy'n gyflymach o lawer ac sy'n achosi llai o straen.[4] Mae hefyd yn golygu bod amser ac arbenigedd barnwrol yn cael eu defnyddio mewn achosion lle nad oes angen hynny o bosibl, gan nad yw'r partïon wedi ceisio datrys eu hachos drwy gonsensws.

O ganlyniad, tynnir adnoddau'r llys oddi wrth achosion mwy cymhleth; mae'n cymryd mwy o amser i bawb gael mynediad at y cyfiawnder maent yn ei haeddu; ac mae'r llysoedd yn gweithredu'n llai effeithlon nag y gallent.

### *Cyflwyno gofyniad i gyfryngu*

Un ffordd o fynd i'r afael â'r ffaith nad oes llawer yn manteisio ar y gwasanaeth hwn a sicrhau bod y partïon a'r llysoedd yn sylweddoli manteision cyfryngu yw gofyn i bartïon ystyried a chymryd rhan mewn cyfryngu. Mewn amrywiaeth o awdurdodaethau rhyngwladol, mae mathau o gyfryngu gorfodol ar gyfer achosion sifil eisoes wedi'u sefydlu'n llwyddiannus. Yn yr Eidal, er enghraifft, mae gan farnwyr y pŵer i orchymyn partïon i roi cynnig ar gyfryngu mewn unrhyw anghydfod sifil, ac mewn rhai achosion, mae'n ofynnol i bartïon fynychu "sesiwn gyfryngu gychwynnol" cyn y gallant ddwyn hawliad. Yn Awstralia, ceir pwerau tebyg. Yn y cyfamser, yn Ontario, Canada, ers dros

[2] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules

[3] Daw'r ffigurau o werthusiad mewnol gan GLITEM.

[4] Mae achosion yn cael eu hatal am 28 diwrnod i'r apwyntiad cyfryngu gael ei gynnal; ar hyn o bryd, yr amser rhwng cychwyn a gwrando ar gyfer hawliadau bychain yw 50.6 wythnos (gweler: https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly).

ugain mlynedd mae'n ofynnol yn awtomatig i bartïon mewn anghydfodau sifil roi cynnig ar gyfryngu ar ddechrau achos llys, ac mae'r llysoedd yn gallu diystyru neu 'ddileu' hawliad neu amddiffyniad y parti nad yw'n cydymffurfio. At ei gilydd, mae cefnogaeth gref i'r mesurau hyn gan y proffesiwn cyfreithiol yn eu hawdurdodaethau perthnasol, mae'r cyfraddau llwyddiant yn uchel, ac maent wedi ysgogi newid diwylliant gwirioneddol yn y ffordd y mae pobl yn ystyried datrys anghydfodau cyfreithiol.[5]

Wrth adolygu'r rhain ac enghreifftiau rhyngwladol eraill, ochr yn ochr ag elfennau presennol gorfodaeth a chyfraith achosion ar y pwnc hwnnw yn llysoedd Cymru a Lloegr, ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Cyswllt y Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) ar gyfer Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod Barnwrol, adroddiad a oedd yn nodi ei farn bod cyfryngu gorfodol yn gyfreithiol ac y dylid annog ei gyflwyno.[6]

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y bydd unrhyw fath o ddatrys anghydfod "nad yw'n anghymesur o feichus ac nad yw'n eithrio mynediad effeithiol y partïon i'r llys yn gydnaws â hawliau Erthygl 6 y partïon". Hefyd, os nad oes "ymrwymiad ar y partïon i setlo a'u bod yn parhau i fod yn rhydd i ddewis rhwng setlo a pharhau â'r ymgyfreitha yna nid oes ... "cyfyngiad annerbyniol" ar yr hawl i fynd i'r llys". Yn ei hanfod, ar yr amod nad yw partïon yn cael eu gorfodi i setlo eu hachos mewn sesiwn gyfryngu a'u bod yn dal i allu mynd i'r llys, mae'n dderbyniol cyflwyno gofyniad i roi cynnig ar gyfryngu.

Roedd adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil ar Ddatrys Hawliadau Bychain yn adeiladu ar y casgliad hwn.[7] Yma, argymhellodd Gweithgor y Cyngor ar Hawliadau Bychain y dylid cyflwyno cyfryngu gorfodol ar gyfer hawliadau bychain a oedd yn werth llai na £500, gan honni y byddai hyn yn arwain at "fanteision clir i'r ymgyfreithwyr posibl/ymgyfreithwyr (a fyddai'n cael eu harbed rhag talu costau pellach a rhoi mwy o amser i'r hawliad) ac effaith fanteisiol ar argaeledd adnoddau barnwrol a gweinyddol ar gyfer hawliadau eraill".

Mae'r adroddiad yn nodi'n glir "gan y byddai defnyddio'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn orfodol ar gyfer hawliadau o'r gwerth hwn yn cael ei "ariannu gan y llys" ac felly'n niwtral o ran costau i'r partïon; ni ddylid ystyried y gofyniad yn rhy feichus nac yn anghymesur o ran costau nac amser", ac, "oherwydd ei fod yn wasanaeth dros y ffôn, ni ddylai fel arfer achosi unrhyw anawsterau ychwanegol i bartïon agored i niwed".

[5] https://www.gov.scot/publications/international-evidence-review-mediation-civil-justice/

[6] https://www.judiciary.uk/announcements/mandatory-alternative-dispute-resolution-is-lawful-and-should-be-encouraged/. Mae Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn cyfeirio at bob math o achosion o ddatrys anghydfod heb fod yn y llys.

[7] https://www.judiciary.uk/announcements/civil-justice-council-calls-for-improved-procedure-for-claims-under-500/

Y sancsiynau roedd y Gweithgor yn argymell eu rhoi ynghlwm wrth y gofyniad hwn oedd dileu'r hawliad ar gyfer hawlydd nad yw'n cydymffurfio neu ddefnyddio sancsiynau cost ar gyfer diffynnydd nad yw'n cydymffurfio.

### *Cais am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr*

Yn y Cais am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau, gyda rhagair wedi'i gyd-lofnodi gan yr uwch farnwriaeth, gofynnodd y llywodraeth sawl cwestiwn i randdeiliaid ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno gofyniad i gyfryngu yn y system gyfiawnder ehangach.

Roedd llawer o randdeiliaid yn cytuno mai cyflwyno elfen o orfodaeth i gyfryngu oedd yr unig ffordd o sicrhau newid ystyrlon mewn diwylliant o ran sut mae anghydfodau'n cael eu datrys. Roeddent hefyd wedi codi nifer o ffactorau hollbwysig i ni eu cadw mewn cof wrth i ni fwrw ymlaen â'r polisi hwn. Yn benodol, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i sicrhau bod unrhyw ofyniad i gyfryngu yn cynnal mynediad at gyfiawnder ac yn gallu cael ei deilwra i anghenion unigol, ac y dylai fod mecanweithiau priodol ar waith i reoli achosion lle mae pryderon diogelu.

Rydym yn credu'n gryf fod yr amser wedi dod i ystyried cyfryngu fel rhan annatod o'r system cyfiawnder sifil. Felly, wrth ddatblygu ein cynigion i ddechrau cyflwyno'r diwygiad hwn mewn hawliadau bychain (fel y nodir isod), rydym wedi defnyddio safbwyntiau rhanddeiliaid i'n harwain a sicrhau bod y gofyniad i gyfryngu yn cael ei gyflawni'n raddol ac mewn ffordd hyblyg a chymesur sy'n sicrhau bod partïon agored i niwed yn cael eu diogelu.

### *Gwella hyder yn y sector cyfryngu sifil*

Fel rhan o'n cynigion ar gyfer hawliadau bychain, byddwn yn ehangu ac yn gwella'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn sylweddol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o gyfryngwyr a gyflogir gan y llysoedd sydd wedi'u hyfforddi i ddelio ag anghydfodau hawliadau bychain, yn ogystal â phroses symlach, fwy digidol ar gyfer defnyddwyr.

Fodd bynnag, dim ond un segment o ddefnyddwyr y llysoedd sifil y mae'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn ei wasanaethu ac mae'r Llywodraeth am i bob parti, beth bynnag yw gwerth ei achos, gael mynediad at wasanaethau cyfryngu atebol, o ansawdd uchel.

Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni edrych ar ehangu'r gofyniad i gyfryngu i achosion gwerth uwch a mwy cymhleth yn y Llys Sirol, a fyddai'n golygu bod angen cyfeirio partïon at gyfryngwyr trydydd parti, yn hytrach na'r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan GLITEM.

Felly, rydym hefyd yn gwahodd sylwadau ar yr hyn y gallem ei wneud i gefnogi twf parhaus marchnad gwasanaethau cyfryngu allanol ffyniannus gyda lefel gadarn o sicrwydd ansawdd a lefelau uchel o hyder defnyddwyr.

***Mentrau eraill y Llywodraeth***

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi integreiddio cyfryngu'n ffurfiol yn y system cyfiawnder sifil. Rydym hefyd yn credu yng ngwerth cyfryngu i helpu partïon i sicrhau datrysiadau cyflym, effeithiol a thrwy gonsensws ar draws pob awdurdodaeth. I'r perwyl hwn, mae'r Llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar ddiwygiadau a fydd yn cyflwyno cyfryngu gorfodol yn y tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd,[8] yn ogystal â chynnig cefnogi bwriad y DU i gadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gytundebau Setlo Rhyngwladol ("Confensiwn Singapore ar Gyfryngu"[9] – sydd i gyd yn cyfrannu at ein nod o wneud cyfryngu yn rhan hanfodol o'r system cyfiawnder modern.

Yn y Gwanwyn 2022, cyhoeddodd BEIS ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad 'Diwygio Cystadleuaeth a Pholisi Defnyddwyr'. Ffocws allweddol i BEIS yw gwella'r ansawdd a'r goruchwyliaeth o wasanaethau ADR trwy gyflwyno gofyniad achredu gorfodol a chodi'r safon gofynnol ar gyfer achredu ac asesu cyrff ADR. Mae hyn yn cefnogi ein diwygiadau arfaethedig trwy sbarduno hyder busnesau a defnyddwyr yn ADR fel gwasanaeth dibynadwy y gellir ymddiried ynddo, sy'n datrys llawer o anghydfodau cyn bod angen gweithredu yn y llys.

---

[8] https://www.gov.uk/government/consultations/send-review-right-support-right-place-right-time

[9] https://uncitral.un.org/en/texts/mediation/conventions/international_settlement_agreements; https://www.gov.uk/government/consultations/the-singapore-convention-on-mediation

# Y cynigion

## (1) Cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain

### *Y broses bresennol ar gyfer cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain*

Yn gyffredinol, mae'r trac hawliadau bychain ar gyfer hawliadau gwerth hyd at £10,000 er bod terfynau is yn berthnasol mewn rhai achosion. Mae ganddo set benodol o reolau (Rhan 27) yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil gyda'r nod o nodi dull cymesur o ddelio ag achosion syml o werth ariannol cyfyngedig. Er mwyn helpu gyda'r amcan hwn, mae GLITEM yn gweithredu'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain, sy'n cynnig apwyntiad cyfryngu am ddim am awr (dros y ffôn fel arfer) gyda chyfryngwr a gyflogir gan GLITEM.

Gall partïon gael gafael ar y Gwasanaeth hwn drwy amrywiaeth o bwyntiau mynediad gwahanol ar ôl i hawliad ffurfiol gael ei wneud, gan gynnwys drwy: Hawliadau Arian Sifil Ar-lein (OCMC); Hawlio Arian Ar-lein (MCOL); Canolfan Hawliadau am Arian y Llysoedd Sirol (CCMCC); neu drwy gyfeiriad barnwrol. Nid oes rheidrwydd i gymryd rhan, a dim ond pan fydd y ddwy ochr yn cydsynio i gyfryngu y mae achos yn cael ei gyfeirio ar gyfer apwyntiad.

Yn ddiweddar, cynhaliodd GLITEM gynllun peilot yn y gwasanaeth OCMC lle'r oedd pob hawliad o dan £500 yn cael ei gyfeirio'n awtomatig at wasanaeth cyfryngu'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain (yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon optio allan, os nad oeddent yn dymuno cymryd rhan). Ar ôl i'r cynllun peilot gael ei werthuso, o fis Mai 2021 ymlaen, mae'r model optio allan wedi cael ei ymestyn i gynnwys pob hawliad sy'n cael ei gychwyn drwy'r OCMC, sef hyd at £10,000. Pan fydd cyfryngu'n digwydd, nid oes raid i bartïon setlo yn y gwasanaeth cyfryngu ac os nad ydynt yn gallu dod i gytundeb, mae'r hawliad yn parhau yn ôl yr arfer i'r llysoedd.

### *Enghreifftiau o achosion sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain*

Bob blwyddyn, mae bron i 80,000 o bartïon yn cael eu cyfeirio i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain i'w helpu i ddatrys amrywiaeth o broblemau cyfreithiol gwahanol. Dyma rai enghreifftiau cadarnhaol o'r mathau nodweddiadol o achosion y mae'r gwasanaeth yn delio â hwy a'r partïon y mae'n eu cefnogi:

## Helen

### *Problem gyfreithiol*

Roedd Helen wedi cael gosod to newydd ar ei chartref. Chwe mis yn ddiweddarach, dechreuodd y to ollwng. Pan gysylltodd Helen â’r cwmni toi i ofyn iddo drwsio’r broblem, roedd y cwmni’n gwadu bod y gwaith wedi bod yn ddiffygiol a dywedodd y byddai’n rhaid i Helen dalu am y gwaith atgyweirio. Roedd Helen yn teimlo nad oedd ganddi ddewis ond gofyn i gontractwr arall atgyweirio’r to a chyflwyno hawliad llys i’r cwmni toi am y gost.

### *Pam cyfryngu?*

Roedd Helen yn dymuno cael yr arian roedd hi’n teimlo oedd yn ddyledus iddi am dalu’r contractwr arall, ond nid oedd hi’n dymuno delio â’r straen o fynd i’r llys oni bai fod hynny’n angenrheidiol. Roedd cyfryngu’n ymddangos yn ffordd fwy synhwyrol o ddatrys y mater.

### *Canlyniad*

Ar ôl sawl cynnig a gwrthgynnig, setlodd y cwmni toi achos Helen am swm llawn y gwaith atgyweirio ar yr amod nad oedd yn atebol am unrhyw broblemau pellach gyda’r to.

### *Dyfyniad*

**“Roeddwn i’n nerfus ar y dechrau, ond eglurodd y cyfryngwr yr holl broses i mi, felly roeddwn i’n teimlo’n gyfforddus iawn.”**

## Jakub

### *Problem gyfreithiol*

Mae Jakub yn fasnachwr pren bach, annibynnol. Roedd ganddo contract ers cyfnod hir gyda gwneuthurwr dodrefn lleol. Fodd bynnag, wnaeth y cwsmer ganslo eu contract yn annisgwyl oherwydd eu bod yn gwerthu’r busnes. Mynnodd Jakub fod y cwsmer heb ddarparu’r cyfnod rhybudd gofynnol, ond roedd y cwsmer yn anghytuno â hyn a dweud bod ganddyn nhw hawl i ganslo’r contract.

### *Pam ei fod yn dewis defnyddio cyfryngu?*

Roedd Jakub yn dymuno datrys y mater cyn gynted â phosibl a bwrw ymlaen i redeg ei fusnes heb orfod wynebu’r baich amser a chost o ymgyfreitha.

***Canlyniad***

Trwy gyfryngu roedd Jakub yn gallu trefnu fel bod perchennog newydd y busnes yn cychwyn contract tebyg gydag ef am ei wasanaethau, fel amod o brynu’r busnes.

***Dyfyniad***

**“Fe wnaeth cyfryngu arbed llawer o amser ac arian i mi. Wnes i lwyddo i sicrhau canlyniad rhesymol na fyddwn i wedi gallu ei gael trwy’r llys.”**

## Gurdeep

***Problem gyfreithiol***

Mae Gurdeep yn rhedeg cwmni teithio bach sy’n cynnig teithiau antur. Roedd un o’i gwsmeriaid yn anhapus â’i brofiad ac yn mynnu ad-daliad o £1,675. Roedd Gurdeep yn meddwl bod beirniadaethau’r cwsmer yn annheg, ond cynigiodd ddisgownt iddo ar archeb yn y dyfodol fel arwydd o ewyllys da. Gwrthododd y cwsmer dderbyn y cynnig hwn a chyflwynodd hawliad llys yn y pen draw.

***Pam cyfryngu?***

Roedd Gurdeep am osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd negyddol a diogelu ei enw da. Roedd cyfryngu’n gyfle arall i ddatrys yr anghydfod mewn ffordd gyfrinachol a thrwy gonsensws.

***Canlyniad***

Drwy’r broses gyfryngu, roedd Gurdeep yn cydnabod bod rhai problemau wedi effeithio ar brofiad y cwsmer. O ganlyniad, cytunodd i setlo’r achos gyda’i gwsmer am £800 a chytunodd y cwsmer i beidio ag ysgrifennu adolygiad negyddol.

***Dyfyniad***

**“Roedd y cyfryngwr yn gwrando ar fy ochr i, ond roedd hi hefyd wedi helpu i esbonio safbwynt y cwsmer. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi dod i gyfaddawd teg.”**

***Y broses newydd ar gyfer cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain***

Rydym yn bwriadu ymhelaethu ar argymhelliad diweddar y Cyngor Cyfiawnder Sifil a mynnu y bydd yr holl hawliadau bychain a amddiffynnir yn cael eu hatal yn awtomatig am 28 diwrnod ac yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ar gyfer apwyntiad am ddim gyda chyfryngwr sydd wedi’i hyfforddi yn y llys, yn orfodol. <u>Ni fydd partïon yn gallu dewis optio allan o’r broses dim ond am eu bod yn dymuno gwneud hynny.</u>

Rydym yn ystyried a ddylid eithrio mathau penodol o hawliadau bychain rhag cael eu cyfeirio at wasanaeth cyfryngu, ynghyd â p’un a dylai partïon allu wneud cais am esemptiad unigol. Os bydd yn mynd rhagddo, gellir asesu ceisiadau unigol am esemptiad ar sail fesul achos gan farnwr, a fydd yn gwneud penderfyniad yn ôl ei (d)disgresiwn ef/hi.[10]

Rydym hefyd yn ystyried sut i werthuso a yw parti wedi ymgysylltu’n ddigonol â’r broses gyfryngu. Pan asesir nad yw parti’n cydymffurfio â’r gofyniad i fynd i sesiwn gyfryngu, rydym yn cynnig galluogi barnwr i ddarparu ar gyfer atal ar yr achos ymhellach. Os bydd rhywun yn parhau i fethu â chydymffurfio, byddai barnwr yn gallu dewis canlyniad addas ar gyfer y gwrthodiad hwn. Gallai hyn olygu gwneud gorchymyn costau niweidiol (lle gorchmynnir un parti i dalu rhan neu’r cyfan o gostau cyfreithiol y parti arall) neu ddileu hawliad neu amddiffyniad parti.

Pan fydd cyfryngu’n digwydd, ni fyddai partïon yn cael eu gorfodi i setlo eu hachos os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Os oes modd setlo, gellir cofrestru’r cytundeb hwn gyda’r llys fel gorchymyn setlo gorfodadwy. Pan gynhelir cyfryngu ond nad yw’n arwain at setlo byddai’r ymgyfreitha’n ailddechrau fel arfer.

***Siart llif y broses***

**Problem Gyfreithiol**

Mae gan unigolyn neu gwmni (neu ‘hawlydd’) anghydfod gydag unigolyn neu fusnes arall (y ‘diffynnydd’) ac mae’n credu bod ei hawliau cyfreithiol wedi’u torri. Nid yw’n gallu datrys y broblem ei hun.

↓

**Hawliad**

[10] Lle bo’r Llywodraeth ei hun yn barti i anghydfod hawliad bychan sifil, bydd yr achos wedi’i esemptio o’r gofyniad i gyfryngu.

Mae'r hawlydd yn penderfynu lansio achos cyfreithiol yn erbyn y diffynnydd drwy gyflwyno ffurflen hawlio i'r Llys Sirol.

↓

### Amddiffyniad

Pan fydd y diffynnydd yn anghytuno â'r hawliad, bydd yn ffeilio amddiffyniad gyda'r llys yn nodi ei ochr ef o'r achos. Os na fydd y diffynnydd yn gwneud hyn, bydd yr hawliad yn mynd yn syth i ddyfarniad trwy ddiffyg ar gais yr hawlydd.

↓

### Holiadur Cyfarwyddiadau

Yn dilyn yr amddiffyniad, dyrennir yr achos dros dro i'r trac hawliadau bychain (ar gyfer hawliadau sy'n werth llai na £10,000 yn gyffredinol) a hysbysir y ddau barti y caiff yr achos ei gyfeirio ar gyfer cyfryngu, oni bai bod yr achos wedi'i esemptio. Gofynnir iddynt ddarparu gwybodaeth i'r llys a nodi'r holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'w hachos. Gall y cam hwn hefyd fod yr adeg y gall unigolyn ofyn am gael eu heithrio o gyfryngu a nodi'r rhesymau dros hyn.

↓

### Cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain neu ganiatáu eithrio

Os na fydd y naill barti na'r llall yn gwneud cais am eithriad, caiff yr achos ei ohirio am 28 diwrnod a'i gyfeirio at gyfryngu. Os bydd unigolyn yn gofyn am gael ei eithrio, gall y cais hwn yn cael ei asesu gan farnwr. Os bydd y barnwr yn cytuno nad yw'r achos yn addas ar gyfer cyfryngu, bydd yr ymgyfreitha'n ailddechrau. Os bydd y barnwr yn penderfynu ei fod yn addas, caiff yr achos ei ohirio am 28 diwrnod a'i gyfeirio at gyfryngu.

↓

### Cyfryngu

Trefnir apwyntiad gyda chyfryngwr y llys a chynghorir y ddau barti ar sut i baratoi ar gyfer y broses hon. Ar ddiwrnod yr apwyntiad, bydd y cyfryngwr yn helpu i hwyluso trafodaeth rhwng y partïon i weld a allant gytuno ar setliad y mae'r ddau ohonynt yn hapus ag ef. Os nad yw parti'n cydymffurfio â'r gofyniad i gyfryngu, bydd yr achos yn cael ei ail-atal, gyda sancsiynau'n cael eu rhoi ar waith am barhau i fethu â chydymffurfio.

↓

### Canlyniad

Os yw’r hawlydd a’r diffynnydd yn cytuno ar setliad, caiff hwn ei lunio fel contract ffurfiol sy’n rhwymo mewn cyfraith ac sy’n cael ei gofrestru gyda’r llys fel gorchymyn gorfodadwy. Mae hyn yn golygu, os bydd un o’r partïon yn methu â gweithredu yn unol â’r hyn y cytunwyd arno, y gall yr hawlydd gymryd camau gorfodi. Pan na fydd yr hawlydd a’r diffynnydd yn dod i gytundeb, bydd yr achos yn dychwelyd i’r llys a bydd yr ymgyfreitha’n ailddechrau.

Cwestiynau:

1. Rydym yn cynnig cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer pob hawliad bach (y rheini sy’n werth llai na £10,000 fel arfer). Ydych chi’n meddwl y dylid eithrio unrhyw fathau o achosion o’r gofyniad i fynychu apwyntiad cyfryngu? Os felly, pa fathau o achosion a pham?

2. Ydych chi'n credu y dylai partïon allu gwneud cais am eithriadau unigol o'r gofyniad i fynychu cyfryngu, wedi eu hasesu fesul achos gan farnwr? Os felly, pam? A pha ffactorau ydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried??

3. Sut ydych chi’n meddwl y dylem ni werthuso a yw parti sy’n gorfod cyfryngu wedi ymgysylltu’n ddigonol â’r broses gyfryngu?

4. Y canlyniadau arfaethedig pan nad yw partïon yn cydymffurfio â’r gofyniad i gyfryngu heb eithriad dilys yw gorchymyn costau niweidiol (gorfod talu holl gostau neu ran o gostau cyfreithiol y parti arall) neu ddileu hawliad neu amddiffyniad. Ydych chi’n credu bod y sancsiynau arfaethedig hyn yn gymesur a pham?

5. Dywedwch wrthym os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y cynnig i gyfeirio’n awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain.

### *Ehangu a gwella’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain*

Bydd cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain yn golygu y bydd yn rhaid ehangu’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn sylweddol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer yr achosion sy’n defnyddio’r gwasanaeth. Rydym yn datblygu cynlluniau ar gyfer recriwtio a hyfforddi’r cyfryngwyr ychwanegol sydd eu hangen er mwyn i’r gwasanaeth allu darparu apwyntiad cyfryngu i bob defnyddiwr o fewn yr amserlen o 28 diwrnod.

Rydym hefyd yn ystyried hyn yn gyfle i fuddsoddi mewn gwelliannau a allai wella profiad defnyddwyr o’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain. Rydym yn edrych ar sut gallai’r broses ar gyfer delio ag achosion sy’n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gael ei digideiddio

a'i hintegreiddio ymhellach yn y gwasanaeth llysoedd ar-lein ehangach yn dilyn y Rhaglen Ddiwygio. Rydym hefyd yn bwriadu gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr am y gwasanaeth a'r broses gyfryngu.

Rydym yn gwybod o'r Cais am Dystiolaeth ar Ddatrys Anghydfodau fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn cael effaith sylweddol ar allu pobl i ymwneud yn llwyddiannus â'r broses gyfryngu. Nid yw llawer o bartïon wedi clywed am gyfryngu cyn bod ganddynt broblem gyfreithiol. Heb arweiniad dibynadwy a realistig, ni allwn ddisgwyl iddynt ddeall beth gall cyfryngu ei gynnig iddynt na sut bydd y broses yn gweithio. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pan roddir cynnig ar gyfryngu, nad yw partïon yn aml yn cael eu paratoi'n briodol.

Ein nod fydd sicrhau, drwy gydol eu hymwneud â'r system cyfiawnder sifil, fod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir a hygyrch sy'n eu helpu i lywio'r broses gyfryngu ar gyfer hawliadau bychain yn effeithiol. Mae hyn yn golygu rhoi esboniadau clir i ddefnyddwyr am gyfryngu a'i fanteision, yn ogystal â'r gofyniad i gyfryngu, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r broses o'r dechrau. Ond mae hefyd yn golygu gweithio i arwain defnyddwyr yn fwy llwyddiannus drwy gydol y broses honno, er mwyn iddynt wybod beth i'w ddisgwyl ar bob cam a beth sydd ei angen ganddynt.

Rydym yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid ynghylch unrhyw welliannau eraill y gallem eu gwneud i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain i sicrhau bod y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu mor hygyrch â phosibl i ddefnyddwyr.

Cwestiynau

6. Oes gennych chi brofiad o'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?
7. Gawsoch chi wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain? Os cawsoch chi wybodaeth, pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth honno?
8. Sut gallwn ni wella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr am y gwasanaeth hwn?
9. Pa opsiynau ddylai fod ar gael i helpu pobl sy'n agored i niwed neu sy'n cael trafferth cael gafael ar wybodaeth i gael yr arweiniad sydd ei angen arnynt?
10. Beth arall ydych chi'n meddwl y gallen ni ei wneud i gefnogi partïon i gymryd rhan effeithiol mewn proses gyfryngu sy'n cael ei chynnig gan y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?

### *Manteision disgwyliedig y cynnig (y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr)*

Mae manteision disgwyliedig y cynnig hwn yn cynnwys:

- Helpu 272,000 o bartïon ychwanegol mewn hawliadau bychain bob blwyddyn i gael cyfle i ddatrys eu hanghydfod drwy gonsensws ac arbed amser a chost ymgyfreitha.
- Dargyfeirio 20,000 o achosion disgwyliedig y gellid bod wedi’u hosgoi o system y llysoedd a rhyddhau 7,000 o ddiwrnodau eistedd barnwrol disgwyliedig i’w defnyddio ar gyfer achosion mwy cymhleth.
- Cefnogi’r gwaith o ddarparu cyfiawnder sifil mewn modd amserol, cymesur ac effeithlon.

## (2) Cryfhau’r sector cyfryngu sifil

***System achredu / rheoleiddio gyfredol***

Er bod ein cynigion presennol yn mynd i’r afael â hawliadau bychain, gyda gwasanaeth cyfryngu am ddim yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain, ein huchelgais yn y dyfodol yw ehangu’r gofyniad i gyfryngu i holl ddefnyddwyr y Llys Sirol. Gan y bydd unrhyw ehangu yn golygu cyfeirio partïon at gyfryngwyr allanol, yn hytrach na’r rheini a gyflogir yn uniongyrchol gan GLITEM, bydd yr uchelgais hwn yn dibynnu ar y farchnad cyfryngu sifil ehangach. Mae’r holl wybodaeth sydd gennym yn awgrymu bod hon yn farchnad ffyniannus, sy’n darparu gwasanaethau datrys anghydfodau o ansawdd uchel. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn sicrhau bod y farchnad yn cael ei chefnogi a’i chryfhau, yn unol â’i rôl gynyddol ganolog o ddatrys anghydfodau cyfreithiol.

Mae’r farchnad cyfryngu sifil yn cael ei hunanreoleiddiol ar hyn o bryd, gydag achrediad gwirfoddol yn cael ei weinyddu gan gyrff proffesiynol sy’n cael eu harwain gan y sector. Nid oes un set o ofynion sy’n berthnasol ar draws darparwyr gwasanaethau cyfryngu. Mae hyn yn wahanol i’r trefniadau ar gyfer y sector defnyddwyr. Mae’r sector hwn yn cael ei reoleiddio o dan Reoliadau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod ar gyfer Anghydfod Defnyddwyr (Awdurdodau Cymwys a Gwybodaeth) 2015, a lle mae awdurdodau cymwys dynodedig yn goruchwylio. Mae hefyd yn wahanol i’r sefyllfa yn yr awdurdodaeth teulu, lle mai’r Cyngor Cyfryngu Teulu yw’r unig gorff sy’n pennu safonau, a dim ond cyfryngwyr achrededig y Cyngor hwnnw sy’n gallu cynnal Cyfarfodydd Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (cyfarfodydd gorfodol i ddadleuwyr ddysgu am gyfryngu cyn iddynt allu mynd i’r llys).

Er nad oedd ymatebwyr i’r Cais am Dystiolaeth yn nodi unrhyw fethiant difrifol yn y farchnad, roedd llawer yn cefnogi mwy o ffurfioldeb mewn safonau ar gyfer cyfryngwyr sifil - a chyfraniad y llywodraeth at hynny - ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd symleiddio’r trefniadau achredu presennol. Rydym nawr yn ystyried a ddylem gael y llywodraeth i gymryd mwy o ran yn y gwaith o oruchwylio’r sector. Rydym am sicrhau bod y dull rydym

yn ei ddefnyddio yn gymesur ag unrhyw risg ac yn briodol i anghenion y sector, gan roi hwb i hyder y cyhoedd a gwarantu gwasanaethau o ansawdd uchel heb roi baich gormodol ar ddarparwyr. Yr ymgynghoriad hwn yw’r cam cyntaf i edrych ar sut gallwn sicrhau’r cydbwysedd hwn.

Mae’n wir hefyd bod nifer o weithwyr proffesiynol sy’n gweithio fel cyfryngwyr eisoes yn gorfod glynu wrth safonau rheoleiddio proffesiynol mewn agweddau eraill ar eu bywydau proffesiynol – twrneiod a bargyfreithwyr, syrfewyr a pheirianwyr, gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gwasanaethau cyfreithiol. Mae angen i ni sicrhau nad yw’r unigolion hyn yn cael eu gor-reoleiddio, a sicrhau bod y sgiliau a’r rhinweddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer cyfryngu yn cael eu cefnogi a’u hasesu’n briodol hefyd.

***Opsiynau ar gyfer cryfhau achredu / rheoleiddio***

Un o nodau allweddol ein gwaith ar achredu a rheoleiddio yw gwella hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau cyfryngu sifil y maent yn eu derbyn.

Rydym yn ystyried amrywiaeth o ddulliau gweithredu o ran sut rydym yn cryfhau’r gwaith o oruchwylio’r sector. Yn y cyd-destun hwn, trefniant gwirfoddol yw achredu lle gall cyfryngwyr ddewis cael eu hachredu gan gorff, a chael eu harolygu yn ôl eu safonau. Ystyr rheoleiddio yw'r Llywodraeth yn sefydlu awdurdod cymwys ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyfryngwr gael ei gofrestru a'i arolygu.

Ar gyfer achredu, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn wella neu gymeradwyo’r drefn bresennol yn y farchnad cyfryngu sifil. Gallai hyn olygu gweithio gydag un (neu fwy) o gyrff sydd eisoes yn bodoli yn y sector, i sicrhau bod eu safonau’n mynd i’r afael â’n pryderon o ran cyflawni yn y dyfodol, a’u cymeradwyo’n gyhoeddus fel y corff neu’r cyrff dihafaledd yn y sector. Byddai hyn yn adlewyrchu’r dull a ddefnyddir ar gyfer Cyfryngu Teuluol.

Ffordd arall o wella hyder y cyhoedd mewn cyfryngu sifil yw creu Safon genedlaethol ar gyfer cyfryngu. Byddai hon yn ddogfen a fyddai ar gael i’r cyhoedd, yn nodi set wirfoddol o ofynion y gallai cyfryngwyr ddewis glynu wrthynt er mwyn dangos bod eu gwasanaethau o ansawdd uchel. Gallai’r cyrff presennol yn y sector asesu cyfryngwyr yn erbyn y Safon a’u cefnogi i’w chyflawni.

Byddai Safon genedlaethol yn cael ei harwain gan BSI, corff safonau cenedlaethol y DU, a byddai angen i’r sector cyfryngu fod yn rhan o’i datblygu

11. A oes angen achrediad cryfach, neu reoliad newydd, ar gyfer y sector cyfryngu sifil? Os felly, beth – os o gwbl – ddylai rôl y llywodraeth fod?

12. Pa sefydliad(au) presennol y gellid eu cydnabod yn ffurfiol fel y corff achredu ar gyfer y proffesiwn cyfryngu sifil a pham?

13. Beth yw eich barn am werth Safon genedlaethol ar gyfer cyfryngu? Pa grwpiau neu unigolion ddylai fod yn gysylltiedig â datblygu Safon o’r fath?

14. Yng nghyd-destun cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu mewn achosion sifil y tu hwnt i hawliadau bychain, a oes unrhyw risgiau os na fydd y llywodraeth yn ymyrryd yn y gwaith o achredu neu reoleiddio cyfryngwyr sifil?

15. Bydd rhai cyfryngwyr hefyd yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol, neu weithwyr proffesiynol eraill ac felly’n ddarostyngedig i reoliadau gan y rheoleiddiwr cymeradwy perthnasol e.e. bydd twrneiod sy’n cynnig gwasanaeth cyfryngu eisoes yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. A ddylai cyfryngwyr sydd eisoes yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol neu weithwyr proffesiynol eraill gael eu heithrio rhag unrhyw ofynion rheoleiddio neu achredu ychwanegol ar gyfer eu gweithgareddau cyfryngu?

# Asesiad Cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), yn darparu fel a ganlyn:

“Rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i’r angen i-

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf [2010] hon;

(b) datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu;

(c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a’r rheini nad ydynt yn eu rhannu.”

Mae angen ystyried rhoi 'sylw dyledus' yng nghyd-destun y naw "nodwedd warchodedig" o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

## Ystyriaethau cydraddoldeb

### *Gwahaniaethu uniongyrchol*

Ystyrir bod y cynnig i gyfeirio’n awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain yn annhebygol o wahaniaethu’n uniongyrchol ac nid yw’n debygol o drin pobl yn llai ffafriol oherwydd eu nodwedd warchodedig.

### *Gwahaniaethu anuniongyrchol*

Ar sail y data cyfyngedig sydd ar gael, rydym o’r farn ei bod yn annhebygol y byddai cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain yn gwahaniaethu’n anuniongyrchol gan ei fod yn annhebygol o arwain at anfantais benodol i bobl sydd â nodwedd warchodedig o’i gymharu â phobl sydd heb y nodwedd warchodedig.

### *Gwahaniaethu yn codi o anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol*

Rydym yn cydnabod ei bod yn dal yn bwysig bod y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn parhau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau er mwyn sicrhau mynediad at gyfiawnder wrth ddefnyddio’r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, rydym wedi asesu bod y gwasanaeth eisoes yn cynnwys nifer o gamau i sicrhau hygyrchedd i bobl ag anableddau, fel apwyntiadau wyneb yn wyneb. Byddwn yn parhau i adolygu a diwygio’r addasiadau a ddarperir wrth i’n cynnig ddatblygu ac rydym wedi

ymrwymo i sicrhau na fydd y gwasanaeth yn arwain at unrhyw anfanteision penodol i bobl ag anableddau.

***Aflonyddu ac erledigaeth***

Nid ydym o’r farn y bydd y cynnig yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

***Hyrwyddo cyfle cyfartal***

Ystyriwyd ym mha ffordd y mae’r cynigion hyn yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion hawlwyr sy’n rhannu nodwedd benodol, pan fo’r anghenion hynny’n wahanol i angen y rheini nad ydynt yn rhannu’r nodwedd benodol honno. Rydym yn credu bod y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn gyfle pwysig i hyrwyddo cyfle cyfartal yng nghyd-destun cefnogi pob parti mewn anghydfod hawliadau bychain i gael mynediad at apwyntiad cyfryngu am ddim, beth bynnag fo’r nodweddion gwarchodedig.

***Meithrin perthynas dda***

Rydym wedi ystyried yr angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu rhai nodweddion gwarchodedig a phobl nad ydynt yn eu rhannu. Bydd y cynnig yn cefnogi partïon i ddatrys eu hanghydfodau drwy gonsensws, a bydd y gofynion a’r eithriadau’n berthnasol ni waeth beth fo’r nodweddion gwarchodedig. Bydd y cynigion yn lleihau anghydfodau hirfaith rhwng partïon ac maent yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar feithrin perthynas dda.

***Mae eich barn yn bwysig***

Hoffem ddeall a oes materion cydraddoldeb pellach nad ydym wedi’u hystyried eto. Yng ngoleuni natur barhaus Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, byddwn yn ystyried pob ymateb ac yn diwygio’r Asesiad Cydraddoldeb ar ôl ymgynghori yn ôl yr angen.

16. A oes unrhyw gamau y gallai’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain eu cymryd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb at ei wasanaethau, gan ystyried unrhyw anghenion penodol sydd gan grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a defnyddwyr agored i niwed?

# Holiadur

**[Instructions: for the web version, include an on-line questionnaire, which can be completed and returned on-line]**

Byddem yn croesawu ymatebion i’r cwestiynau a ganlyn:

1. Rydym yn cynnig cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer pob hawliad bach (y rheini sy’n werth llai na £10,000 fel arfer). Ydych chi’n meddwl y dylid eithrio unrhyw fathau o achosion o’r gofyniad i fynychu apwyntiad cyfryngu? Os felly, pa fathau o achosion a pham?
2. Ydych chi'n credu y dylai partïon allu gwneud cais am eithriadau unigol o'r gofyniad i fynychu cyfryngu, wedi eu hasesu fesul achos gan farnwr? Os felly, pam? A pha ffactorau ydych chi'n meddwl y dylid eu hystyried?
3. Sut ydych chi’n meddwl y dylem ni werthuso a yw parti sy’n gorfod cyfryngu wedi ymgysylltu’n ddigonol â’r broses gyfryngu?
4. Y canlyniadau arfaethedig pan nad yw partïon yn cydymffurfio â’r gofyniad i gyfryngu heb eithriad dilys yw gorchymyn costau niweidiol (gorfod talu holl gostau neu ran o gostau cyfreithiol y parti arall) neu ddileu hawliad neu amddiffyniad. Ydych chi’n credu bod y sancsiynau arfaethedig hyn yn gymesur a pham?
5. Dywedwch wrthym os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y cynnig i gyfeirio’n awtomatig at wasanaeth cyfryngu ar gyfer hawliadau bychain.
6. Oes gennych chi brofiad o’r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?
7. Gawsoch chi wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain? Os cawsoch chi wybodaeth, pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth honno?
8. Sut gallwn ni wella’r wybodaeth sy’n cael ei darparu i ddefnyddwyr am y gwasanaeth hwn?
9. Pa opsiynau ddylai fod ar gael i helpu pobl sy’n agored i niwed neu sy’n cael trafferth cael gafael ar wybodaeth i gael yr arweiniad sydd ei angen arnynt?
10. Beth arall ydych chi’n meddwl y gallen ni ei wneud i gefnogi partïon i gymryd rhan effeithiol mewn proses gyfryngu sy’n cael ei chynnig gan y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain?

11. A oes angen achrediad cryfach, neu reoliad newydd, ar gyfer y sector cyfryngu sifil? Os felly, beth – os o gwbl – ddylai rôl y llywodraeth fod?

12. Pa sefydliad(au) presennol y gellid eu cydnabod yn ffurfiol fel y corff achredu ar gyfer y proffesiwn cyfryngu sifil a pham?

13. Beth yw eich barn am werth Safon genedlaethol ar gyfer cyfryngu? Pa grwpiau neu unigolion ddylai fod yn gysylltiedig â datblygu Safon o'r fath?

14. Yng nghyd-destun cyflwyno proses gyfeirio awtomatig at wasanaeth cyfryngu mewn achosion sifil y tu hwnt i hawliadau bychain, a oes unrhyw risgiau os na fydd y llywodraeth yn ymyrryd yn y gwaith o achredu neu reoleiddio cyfryngwyr sifil?

15. Bydd rhai cyfryngwyr hefyd yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol, neu weithwyr proffesiynol eraill ac felly'n ddarostyngedig i reoliadau gan y rheoleiddiwr cymeradwy perthnasol e.e. bydd twrneiod sy'n cynnig gwasanaeth cyfryngu eisoes yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. A ddylai cyfryngwyr sydd eisoes yn gweithio fel ymarferwyr cyfreithiol neu weithwyr proffesiynol eraill gael eu heithrio rhag unrhyw ofynion rheoleiddio neu achredu ychwanegol ar gyfer eu gweithgareddau cyfryngu?

16. A oes unrhyw gamau y gallai'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain eu cymryd i sicrhau mynediad cyfartal i bawb at ei wasanaethau, gan ystyried unrhyw anghenion penodol sydd gan grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig a defnyddwyr agored i niwed?

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.**

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o’r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw’r cwmni/sefydliad** (os yw’n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw’n wahanol i’r uchod | |
| | |
| | |

**Ydych chi'n fodlon i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnwys eich sefydliad cysylltiedig mewn rhestr gyhoeddus o'r ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori?**

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw’r grŵp a rhowch grynodeb o’r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn [insert date] at:

**Dispute Resolution Team**
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio’r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk.

Gellir gofyn am fersiynau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformatiau gwahanol oddi wrth Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

## Cyhoeddi ymateb

Bydd ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o’r bobl a’r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth

(sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o’r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo’i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae’r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod hawlfraint gwybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.